| | |
|---|---|
| GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board | Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau BIPBC Dull Gweithredu Safonol (SOP) ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau mewn Cartrefi Gofal (Preswyl a Nyrsio) y mae'n rhaid eu cadw yn yr oergell |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad adolygu** | | **Nifer y tudalennau** | |
| **Awdur(on)** | Nyrsys Rheoli Meddyginiaethau Gwasanaethau Gofal Cychwynnol a Chymunedol | | |
| **Adran/cyfarwyddwr sy'n gyfrifol** | Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau | | |
| **Cymeradwywyd gan** | Is-grŵp Cartrefi Gofal Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau BIPBC<br>Is-Grŵp Polisïau, Gweithdrefnau Meddyginiaeth a PDGs | | |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 21/08/2019 | | |
| **Dyddiad gweithredu (mynd yn fyw)** | Medi 2020 | | |
| **Dyddiad cwblhau'r EqIA** | Mehefin 2019 | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dogfennau i'w darllen ochr yn ochr â'r polisi hwn** | 1. Cyd-gytundeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ar gyfer Cod Ymarfer Rheoli Meddyginiaethau mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol Mai 2016<br>2. Safonau arfer gorau a dulliau gweithredu safonol ar gyfer rheoli meddyginiaethau ar gyfer holl leoliadau gofal oedolion Mai 2016<br>3. Arweiniad Proffesiynol ar Roi Meddyginiaethau mewn Lleoliadau Gofal Iechyd RPS (2018)<br>4. Ymdrin â Meddyginiaethau'n Ddiogel ac yn Gadarn RPS (2019)<br>5. Polisi Meddyginiaethau BIPBC | | | |
| **Newidiadau i'r adolygiad presennol:** | | | | |
| **Yn weithredol yn gyntaf** | | | | |
| **Wedi'i adolygu'n flaenorol** | | | | |
| **Newidiadau wedi'u gwneud. Do/naddo** | | | | |

| **Cymeradwywyd/Gwrthodwyd SOP** | **Llofnod cadarnhau** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| | | |

## 1.0 CYFLWYNIAD AC ARWEINIAD CYFFREDINOL

Mae'n bwysig sicrhau bod yr holl feddyginiaethau'n cael eu cadw'n ddiogel ac yn unol ag arweiniad y cynhyrchwr. Mae angen cadw rhai meddyginiaethau mewn oergell oherwydd os cânt eu cadw ar dymheredd ystafell, gallant dreulio gan ddod yn aneffeithiol (ni fyddent yn gweithio fel y dylent).

Mae'n bwysig i chi fod yn gyfrifol am reoli meddyginiaethau fel eich bod yn ymwybodol sut i ganfod pa feddyginiaethau y mae angen eu cadw mewn ffyrdd arbennig, fel eu rhoi yn yr oergell. Gellir defnyddio'r adnoddau canlynol er mwyn cael gwybodaeth am fanylion cadw penodol, y pecynnau, y daflen wybodaeth i gleifion (PIL) a roddwyd, y fferyllfa gymunedol (os ydych yn derbyn cyflenwad ganddynt) neu ddosbarthfa mewn meddygfa. Os bydd arnoch angen copi o PIL, cysylltwch â fferyllydd/dosbarthfa eich meddyg teulu neu gallwch lawrlwytho copïau o'r crynodeb electronig o feddyginiaethau (EMC): www.medicnes.org.uk.

- Mae angen i'r holl feddyginiaethau gael eu cadw'n ddiogel ac yn gadarn, gan gynnwys rhai sydd i'w rhoi yn yr oergell. Dylai fod modd cloi'r oergell a'i diogelu mewn ystafell o dan glo (ystafell y meddyginiaethau).
- Nid yw oergelloedd domestig yn addas i gadw meddyginiaethau ynddynt mewn lleoliadau gofal, **dim ond** ar gyfer meddyginiaethau y dylid defnyddio oergell y meddyginiaethau (peidiwch â chadw unrhyw fwyd na samplau patholeg yn oergell y meddyginiaethau). Mae oergelloedd arbenigol ar gael i gadw meddyginiaethau ynddynt ac mae'n rhaid eu defnyddio ar gyfer brechlynnau a gwanedyddion. **NI** ddylid cadw brechlynnau mewn oergelloedd domestig. I gael rhagor o wybodaeth am gadw brechlynnau os bydd angen, gweler 'The Green Book'. https://www.gov.uk/government/collections/immunisation-against-infectious-disease-the-green-book
- Dylai oergell y meddyginiaethau gael ei gwasanaethu o leiaf bob blwyddyn gan sicrhau bod y thermomedr digidol wedi'i galibro i sicrhau ei fod yn cofnodi'n gywir.
- Dylai meddyginiaethau y mae'n rhaid eu cadw yn yr oergell o adeg eu derbyn yn y cartref gofal gael eu nodi a'u cadw yn oergell y meddyginiaethau ar unwaith.
- Dylai fod nodyn clir ar soced blwg yr oergell wedi'i labelu **"peidiwch â diffodd oergell y meddyginiaethau**" er mwyn atal rhag diffodd yr oergell wrth y wal, yn ddamweiniol. (Gall rhai oergelloedd gael eu gwifro'n uniongyrchol i'r wal er mwyn atal hyn rhag digwydd)
- Mae'n bwysig cadw'r oergell yn daclus, gan gadw meddyginiaethau mewn ffordd drefnus ar silffoedd, a heb fod ar lawr yr uned, neu o fewn drws yr uned. Mae'n bwysig osgoi gorlenwi gan sicrhau eich bod yn cadw lle rhwng blychau a ffiolau er mwyn cynnal cylchrediad priodol. **Peidiwch â chadw symiau mawr** o feddyginiaethau yn yr oergell, dim ond y lleiafswm sydd ei

angen, gan fod hyn yn gallu arwain at lif annigonol o aer a rhewi, o bosibl. Sylwer: mae'n bwysig nad yw meddyginiaethau'n cyffwrdd â'r plât oeri yng nghefn yr oergell.

- Mae'n bwysig bod unrhyw feddyginiaethau sy'n cael eu cadw yn yr oergell yn cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod eu dyddiad yn dal i fod yn gyfredol a bod y stoc a dderbynnir yn cael ei chylchredeg.
- Mae'n bwysig sicrhau, fel rhan o rota glanhau'r cartref, bod glanhau'r oergell yn cael ei gynnwys a bod dyddiadau'n ymwneud â pha bryd y gwnaed hyn yn cael eu cofnodi. Dylai polisi'r cartref ddatgan ym mha oergell arall y dylid rhoi cynnwys yr oergell arferol tra bydd gwaith glanhau ar y gweill.
- Er mwyn sicrhau bod cynnwys oergell y meddyginiaethau'n ddiogel i'w roi, mae'n bwysig bod y tymereddau'n cael eu monitro'n fanwl-gywir gan ddefnyddio thermomedr sy'n mesur y tymheredd isaf a'r tymheredd uchaf hefyd. Dylai'r thermomedr, neu ei stilwyr monitro tymheredd gael eu lleoli mewn lleoliad canolog yn yr oergell, rhwng y cynhyrchion, yn ddelfrydol - ni ddylid eu rhoi yn y drws (sylwer: mae gan lawer o oergelloedd meddyginiaethau thermomedr mewnol pwrpasol). Mae'n bwysig bod y thermomedrau hyn waeth a ydynt yn rhai arunig neu rai mewnol pwrpasol, yn cael eu calibro bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn cofnodi'n fanwl-gywir.
- Dylai tymheredd yr oergell gael ei wirio a'i gofnodi bob dydd. Argymhellir y dylid cofnodi'r tymereddau isaf ac uchaf ynghyd â'r tymheredd cyfredol.
- Mae'n hollbwysig bod staff sy'n cofnodi darlleniadau'r thermomedr yn deall sut i'w darllen yn gywir a'u bod yn ailosod y thermomedr, eu bod yn ymwybodol pam mae angen gwneud hyn a pha gamau os o gwbl fydd eu hangen os bydd problem yn codi.

## 2.0 COFNODI TYMEREDDAU O DDYDD I DDYDD

- Mae'n ofynnol gwirio a chofnodi tymereddau'r oergell **bob dydd**.
- Dylai'r tymereddau isaf, uchaf a chyfredol gael eu cofnodi o'r sgrin ddigidol
- Mae'n rhaid cadw tymheredd yr oergell rhwng ystod **+2°C a +8°C**
- Os bydd tymheredd yr oergell y tu hwnt i'r ystod hon, dylid cymryd camau ar unwaith, gweler isod pa weithredoedd sydd eu hangen os bydd hyn yn digwydd.

## 3.0 CAMAU I'W CYMRYD OS BYDD TYMEREDDAU'R OERGELL Y TU ALLAN I'R YSTOD GYWIR

- Sicrhewch fod yr unigolyn cyfrifol a rheolwr y cartref gofal yn ymwybodol ar adeg canfod y tymheredd angywir

- Wrth aros am gyngor, dylech roi'r stoc sydd yn yr oergell o dan gwarantîn h.y. ni ddylid rhoi unrhyw rai o'r meddyginiaethau a geir yn yr oergell hyd nes y ceir cadarnhad ei bod yn ddiogel gwneud hynny.
- Sicrhewch fod yr holl staff sydd ynghlwm wrth reoli meddyginiaethau'n ymwybodol o'r broblem trwy osod arwydd ar yr oergell **"Ddim i'w defnyddio".**
- Ceisiwch bennu hyd yr amser y byddai tymheredd yr oergell wedi bod y tu allan i'r ystod gywir, a sicrhewch fod gennych restr o'r stoc dan sylw.
- Gofynnwch am gyngor gan eich Gwasanaeth Gwybodaeth am Feddyginiaethau lleol sydd wedi'i leoli yn Adrannau Fferylliaeth Ysbyty Maelor Wrecsam, Ysbyty Glan Clwyd, Ysbyty Gwynedd; efallai y bydd angen iddynt gysylltu â'r cynhyrchwr i gael cyngor pellach.
- Os nad oes modd rhoi'r stoc meddyginiaethau mwyach, mae'n bwysig sicrhau bod modd ei gwaredu'n ddiogel ac yn gywir.
- Sicrhewch fod y rheswm dros fod y tu hwnt i'r ystod gywir o dymereddau'n cael ei ddatrys h.y. galwch am beiriannydd i atgyweirio'r oergell os bydd angen.
- Os bydd rhaid gwaredu'r feddyginiaeth, cysylltwch â'r rhagnodwr cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod modd iddo roi meddyginiaeth newydd ac fel nad oes oedi o ran triniaeth.
- Sicrhewch fod yr holl gamau'n ymwneud â'r digwyddiad yn cael eu cofnodi.

# Taflen Gofnodi Tymheredd yr Oergell o Ddydd i Ddydd

Sicrhewch fod y canlynol yn cael ei gofnodi bob dydd: tymereddau cyfredol, isaf ac uchaf yr oergell ($^{o}$C). **SYLWER: cofiwch ailosod y thermomedr ar ôl cofnodi pob tymheredd**




**Os bydd tymheredd yr oergell y tu hwnt i ystod arferol +2°C a +8°C, sicrhewch fod y camau priodol yn cael eu cymryd a rhowch wybod i reolwr y cartref gofal, sicrhewch eich bod yn gofyn am gyngor ar unwaith.**

| Dyddiad | Amser | Tymheredd cyfredol yr oergell °C (Ystod 2°C-8°C) | Tymheredd isaf °C | Tymheredd uchaf °C | Ailosod y thermomedr | Camau i'w cymryd os bydd tu hwnt i Ystod 2°C-8°C | Wedi'i wirio gan Enw mewn Llythrennau Bras a llofnod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

**Dyddiad glanhau'r oergell (a'i dadrewi os bydd angen):**